# Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ddydd Sadwrn 22 Hydref 2016 yn Llanwrtyd

**2016.32 Addoli agoriadol a chroeso**

Rydym wedi croesawu 40 o Gyfeillion i'r cyfarfod hwn fel a restrwyd ar y daflen bresenoldeb. Mae *Advices and Queries* Rhif 8 wedi cael ei ddarllen yn y Gymraeg a'r Saesneg yn ystod ein haddoli agoriadol.

Eurwyn Pierce-Jones sy'n darparu'r cyfieithu ar y pryd heddiw.

Penodwyd y Cyfeillion canlynol gan eu Cyfarfodydd Ardal i fod yn bresennol:
Gogledd Cymru: Martin Hughes (yn adrodd), David Mellor a Frank Brown.
Canolbarth Cymru: Gan fod Alan Rowland yn absennol, mae Gwen Prince wedi cytuno i adrodd.
Gororau'r De: Jeff Beatty
De Cymru: Pam Greenup

Ein henadur heddiw yw: Peter Hussey

**2016.33 *Calon* a *The Friend***

Mae Pam Greenup wedi cytuno i ysgrifennu am y Cyfarfod hwn i *Calon* a Jules Montgomery i *The Friend*.

**2016.34 Ymestyn Allan yn Sioe Frenhinol Cymru ac Eisteddfod Genedlaethol 2016**

Rydym wedi clywed gan Jeff Beatty fod nifer o Gyfeillion yn cynnal presenoldeb y Crynwyr yn Sioe Frenhinol Cymru yn Llanelwedd. Byddwn yn gofyn i'r trefnwyr yn Cytûn a oes modd creu Cornel Dawel yn y Sioe, fel yn yr Eisteddfod. Mae Stevie Krayer a Hilary Beynon wedi anfon adroddiad cadarnhaol aton ni am eu profiad fel cydlynwyr ac am bresenoldeb y Crynwyr yn yr Eisteddfod eleni. Rydym yn diolch i'r holl Gyfeillion a wirfoddolodd yn y ddau leoliad. Dydyn ni byth yn gwybod pa hadau a heuir gennym pan fyddwn yn siarad â phobl. O ystyried yr ymateb da i'r gyntaf o'r darlithoedd gan y Crynwyr yn yr Eisteddfod eleni, hoffem weld y ddarlith yn cael ei chynnig yn y Saesneg fel digwyddiad yng Nghynulliad y Cyfarfod Blynyddol ym Mhrifysgol Warwick yn 2017 gan ofyn i'r clerc anfon cofnod i'w Bwyllgor Agenda i'r perwyl hwnnw.

**2016.35 Cofnod i Bwyllgor Agenda Cynulliad y Cyfarfod Blynyddol**

Yng Nghyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru yn Llanwrtyd 22 Hydref 2016 clywsom am yr ymateb cadarnhaol i'r gyntaf o gyfres o dair darlith gan y Crynwyr i'w traddodi yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Testun y ddarlith, a draddodwyd yn fywiog yn y Gymraeg gan Gethin Evans, oedd John Edward Southall (gweler QFP 2.53), Cyfaill a chyhoeddwr o Loegr oedd yn byw yng Nghymru. Hoffem weld y ddarlith hon yn cael ei chynnig (yn y Saesneg) fel digwyddiad yng Nghynulliad y Cyfarfod Blynyddol yn Warwick yn 2017 gan ofyn i'r Pwyllgor Agenda ystyried y cais hwn a'i amserlennu.

**2016.36 Adroddiad Adnoddau**
Mae Ros Morley wedi sôn wrthym am yr heriau wrth ddarparu deunydd addas i ymestyn allan yng Nghymru. Rydym wedi derbyn dau gofnod gan y grŵp hwn, fel a ganlyn:

DAU GOFNOD GAN GRŴP ADNODDAU CYFARFOD Y CYFEILLION YNG NGHYMRU

1. Yng nghyfarfod y Grŵp Adnoddau 6 Hydref 2016, rydym yn cofnodi: Rydym yn teimlo bod y weithdrefn bresennol i gael deunyddiau Cymraeg o Friends House yn anfoddhaol. Gofynnwn i Gyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru anfon cofnod i Gyfarfod Blynyddol Prydain, yn pwysleisio bod angen gwell gweithdrefnau arnom o ran cyhoeddi deunyddiau i'w defnyddio yng Nghymru y mae angen eu haddasu a'u cyfieithu. Yn benodol, gofynnwn fod Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru yn cael ei gynnwys ar adeg gynnar wrth wneud penderfyniadau gan obeithio y gall Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru benodi Cyfaill i fynychu cyfarfodydd y Pwyllgor Cyhoeddiadau.

2. Yng nghyfarfod y grŵp Adnoddau 6 Hydref 2016, rydym yn cofnodi: Gofynnwn i Gyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru roi £250 er mwyn creu ail faner ac ailgyflenwi taflenni, posteri ac yn y blaen sydd y tu allan i gylch gwaith deunydd Friends House.

Ni anfonir y cyntaf o'r rhain (cymharer hefyd â Chofnod 2014. 39 [iii]) i Gyfarfod Blynyddol Prydain yng ngoleuni sylw'r Clerc Cofnodi yn y Cyfarfod hwn am newid a'r awydd i fod yn berthnasol yng nghyhoeddiadau'r Crynwyr sydd dan drafodaeth ar hyn o bryd. Bydd y mater hwn a materion eraill sy'n ymwneud â'r Gymraeg i'w trafod yng nghyfarfod clercod Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru a'r Cyfarfod Cyffredinol i'r Alban â'r Clerc Cofnodi ar ddiwedd mis Tachwedd. Mae'r ail Gofnod ar gyllid wedi'i gytuno arno gan y Cyfarfod hwn.

**2016.37 Adroddiad y Grŵp Ffocws a'r Grŵp Laser**
Ffynhonnell bwysig i ddirnad llawer o eitemau sy'n berthnasol i Gymru rhwng cyfarfodydd yw *Grŵp Ffocws Cymru* Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru gyda'i 5 aelod o bob cwr o'r wlad. Rydym wedi gweld ei Gylch Gorchwyl diwygiedig - gwaith sydd ar y gweill - ac wedi clywed gan Gethin Evans am beth mae'r Grŵp yn ei wneud. Mae aelod o'r Grŵp Ffocws yn gwasanaethu gyda Grŵp *Laser* Cytûn o swyddogion Eglwys a Chymdeithas yr enwadau a thrwy hyn cynorthwyir Crynwyr yng Nghymru i fod â llygad ar ddeddfwriaeth y Cynulliad wrth iddi ddatblygu. Siaradodd ein cynrychiolydd, David Harries, am hyn. Mae'r Grŵp Ffocws yn ymwybodol o'r angen i wella cyfathrebu â Friends House wrth iddo ganfod ei ffordd wrth ddelio â'r cyfryngau ac mae'n llwyr werthfawrogi gwaith rhagorol swyddog polisi Cytûn, Gethin Rhys.

**2016.38 Adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Glerciaeth a Gweinyddiaeth**
Mae'r grŵp hwn wedi adrodd wrth yr Ymddiriedolwyr ac mae ei argymhellion wedi'u dwyn i'r Cyfarfod hwn. Maent yn cynnwys cynyddu oriau ein swyddog gweinyddol ac awgrymiadau ar gyfer cynorthwyo'r clerc(od). Daw mwy o waith yn sgil mwy o gyfathrebu sydd hefyd yn gyflymach. Mae oriau ychwanegol i'r swyddog gweinyddol a chostau cyfieithu ar y pryd yn golygu y byddwn yn gwneud cais am gynnydd yn ein grant gan Gyfarfod Blynyddol Prydain. Mae Cofnod 2016.29 wedi'i roi ar waith ac mae'r clerc, Catherine James a Lynn Moseley wedi bod yn ymweld â rhai Cyrddau lleol i hybu cyfranogiad o waith Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru a dealltwriaeth o'i gylch gwaith. Diolchwn i'r grŵp hwn am ei waith i ni.

**2016.39 Adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar y Wefan**
Argymhellion y grŵp hwn oedd newid i wefan ddwyieithog unigol, newid trefniadau lletya a sefydlu grŵp o Gyfeillion i gynnig cynllun newydd fel man cychwyn ar gyfer gwaith gyda datblygwr gwefan

newydd. Gofynnwn i'n Grŵp Enwebiadau ddwyn gerbron enwau pedwar Cyfaill, gydag un ohonynt o leiaf sy'n siarad Cymraeg, ar gyfer y dasg gychwynnol hon. Diolchwn i'r grŵp hwn am wneud y gwaith yma i ni.

**2016.40 Ymweliad y Clerc Cofnodi**
Rydym wedi croesawu Paul Parker i'n cyfarfod heddiw. Mae wedi siarad â ni am ei rôl gyda Chyfarfod Blynyddol Prydain: yn gweithio gyda'r Cyfarfod Blynyddol ei hun, gyda'r Cyfarfod Dioddefiadau, Ymddiriedolwyr Cyfarfod Blynyddol Prydain a chyda throsolwg o bob agwedd ar waith y Cyfeillion. Rhaid i ni wrando am yr undod sydd gennym a gwerthfawrogi a chefnogi, nid lleiaf yn ariannol, y gwaith gwych y mae Cyfeillion yn ei wneud. Mae wedi ein cyfeirio at y cyfleoedd a'r heriau a amlinellir yn y ddogfen *Our Faith in the Future*. Diolchwn i Paul am ei fewnbwn heddiw.

**2016.41 Bywiogrwydd mewn Cyfarfodydd**

Mae Rachel Matthews o raglen *Bywiogrwydd mewn Cyfarfodydd* Cyfarfod Blynyddol Prydain a Helen Oldridge, sydd newydd ei phenodi i weithio â Chyfarfodydd yng Nghymru, wedi bod yn ein cwmni. Mae Rachel yn cydlynu'r rhaglen beilot gan obeithio y bydd wir yn cefnogi cyfarfodydd i fod yn fywiog, gan gofio bod pob cyfarfod yn wahanol. Gall *Our Faith in the Future* ddarparu fframwaith buddiol. Soniodd Helen am ei dulliau gweithredu: bod ar gael i ateb ymholiadau a darparu 'gwybodaeth i dwristiaid'; dod i nabod cyfarfodydd a'u cefnogi mewn prosiectau; cysylltu Cyrddau Lleol a Chyfarfodydd Ardal yn agosach â Friends House a Woodbrooke. Rydym yn edrych ymlaen at y datblygiad cyffrous hwn ac yn diolch i Rachel a Helen am ymweld â ni heddiw.

**2016.42 Gwaith yng Nghymru: Bwrw golwg yn ôl dros brosiect digidol *Lleisiau Cydwybod***

Mae Ruth Harding wedi disgrifio'r prosiect *Lleisiau Cydwybod* (Cofnodion 2013.33 a 2013.46), ei ddatblygiad a'i ddefnyddioldeb parhaus. Dyfeisiwyd y prosiect, a ddeilliodd o Gyfarfod Ardal De Cymru gyda chyllid ehangach, er mwyn cyflwyno llais ar wahân i'r Crynwyr wrth goffáu'r Rhyfel Byd Cyntaf ar hyn o bryd. Cynhyrchwyd y DVD dwyieithog yn ddi-hawlfraint ac mae ar gael i bawb. Golygai cyhoeddi nodiadau i athrawon y gellir ei ddefnyddio mewn ysgolion ac mae defnydd da o'r cyfryngau a marchnata wedi sicrhau y gall yr adnodd hwn gyrraedd cynulleidfa eang, gan gynnwys pob ysgol gynradd ac uwchradd yng Nghymru. I weld pob un o'r 12 ffilm fer ewch at: https://www.peoplescollection.wales/users/4579
I lawrlwytho'r holl nodiadau i athrawon, adnoddau a chyfeiriadau ewch at:
<http://www.breakingbarriers.org.uk/?p=918>
Diolchwn i Ruth am fwrw'r olwg galonogol hon yn ôl dros y prosiect.

**2016.43 Materion Ymddiriedolwyr a Chyllid**
Mae Frank Brown wedi adrodd fel a ganlyn gan yr Ymddiriedolwyr: (a) eu bod am i awdurdodiad llofnodwyr sieciau Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru gael ei ddirprwyo i'r Ymddiriedolwyr. Cytunwyd ar hyn. (b) yn y Cofnod canlynol gan Ymddiriedolwyr Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru: "Gofynnwn i Gyfarfodydd Ardal gefnogi gwaith Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru yn 2017 ar yr un sail ag yn y flwyddyn gyfredol (h.y. £5.25 y pen i aelodau sy'n oedolion)."

**2016.44 Gofal Iechyd Meddwl: Myfyrdodau Personol**
Carolyn Sansom oedd ein siaradwraig heddiw ac mae wedi sôn wrthym am integreiddio ei Chrynwriaeth â'i gwaith ym maes gofal iechyd meddwl. Thema ganolog yn yr hyn a ddywedodd wrthym oedd gwerth cynhenid pob unigolyn, ynghyd â distawrwydd, gwrando a gadael i eraill gael eu clywed pan fyddant yn profi gwewyr meddwl. Mae mynegi'r gwirionedd wrth y rhai sydd mewn grym yn angenrheidiol hefyd. Fel Crynwyr, sut rydym yn cydbwyso anghenion Cyfaill unigol sydd â

phroblemau iechyd meddwl ag anghenion ehangach y Cyfarfod? Fel Cyfeillion mae angen i ni fod yn barod i ymgysylltu â chwestiynau ynglŷn â'r 'hawl i farw', lle y dylai salwch meddwl hefyd fod yn ystyriaeth. Mae angen i ni fod yn dyner gyda'n gilydd wrth i ni ryngweithio o ddydd i ddydd, yn enwedig o gofio disgwyliadau'r Crynwyr ynglŷn ag ymddygiad normadol Crynwraidd. Diolchwn i Carolyn am bryfocio ein meddyliau â'i sgwrs graff.

**2016.45 Cynrychiolwyr eciwmenaidd yn ôl rhanbarth.**
Rydym wedi croesawu'r awgrym y dylid gofyn i Gyfarfodydd Ardal enwebu o leiaf dau Gyfaill a allai gynrychioli Cyfeillion yng Nghymru (Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru) o bryd i'w gilydd ac nid eu Cyfarfodydd Ardal, mewn digwyddiadau a gynhelir yn eu rhanbarth. Gall y rhain fod yn rhai eciwmenaidd Cristnogol neu, er enghraifft, gynnwys ymgynghoriadau'r Cynulliad. Yn bur anaml y gelwid ar aelodau o'r panel cynrychiolwyr hwn a benodir gan Gyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru a dylai o leiaf un ym mhob rhanbarth fedru'r Gymraeg. Ar ôl ymgynghori pellach, bydd y clerc yn cylchredeg cais am enwebiadau i glercod y Cyfarfodydd Ardal.

**2016.46 Cofnodion rhwng Cyfarfodydd**
(1) **Darlithoedd y Crynwyr yn yr Eisteddfod**: Traddodwyd y gyntaf o ddarlithoedd y Crynwyr gan Gethin Evans yn Eisteddfod Genedlaethol y Fenni 2 Awst 2016 a'r testun dan sylw oedd John Edward Southall. Mae'r grŵp cynllunio darlithoedd yn cyhoeddi y bydd y ddarlith nesaf yn y gyfres arfaethedig o dair yn cael ei thraddodi gan Huw Meredydd Owen ar destun fydd yn ymgorffori dealltwriaeth drwy bensaernïaeth (y teitl i'w gadarnhau) yn Eisteddfod Genedlaethol Bodedern Ynys Môn ym mis Awst 2017. Byddai'r grŵp cynllunio (sy'n cynnwys clerc Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru) yn croesawu awgrymiadau gan Gyfeillion o ran testun a siaradwr (Cymraeg) a fyddai'n addas ar gyfer yr Eisteddfod yng Nghaerdydd yn 2018.

(2) **Lansio *Housing Justice Cymru*.** Roedd David Harries, Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru a chynrychiolydd y Grŵp Ffocws yng Ngrŵp *Laser* Cytûn, yn bresennol yn lansiad Housing Justice Cymru yng Nghaerdydd 29 Medi. Mae ei adroddiad i'w weld yn y cyfarfod hwn.

(3) **Gweithgor BREXIT Eglwysi Cytûn.** Mae gan Gyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru aelodaeth ohebol o'r grŵp hwn sydd ar hyn o bryd yn drafftio cyflwyniad i'r Cyd-bwyllgor Seneddol ar oblygiadau hawliau dynol Brexit.

(4) Yng **Nghyfarfod Dyrnu Pwyllgor Agenda'r Cyfarfod Blynyddol** i'w gynnal 11-13 Tachwedd yn Woodbrooke ein cynrychiolydd o Gyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru fydd ein haelod o Grŵp Ffocws Cymru Gethin Evans. Mae'n bwysig bod lleisiau o Gymru'n cael eu clywed wrth ystyried materion yr ymdrinnir â nhw yn yr hir dymor gan y Cyfarfod Dioddefiadau a'r Cyfarfod Blynyddol.

(5) **Cais am gyllid ychwanegol i Gyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru:** Rhwng cyfarfodydd ac yn rhan o adrodd blynyddol Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru wrth y Cyfarfod Blynyddol, mae ein trysorydd, Martin Hughes, wedi tynnu sylw Cyfarfod Blynyddol Prydain at yr angen am gynnydd sylweddol mewn cyllid i Gyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru. Cytunwyd y byddai cyflwyniad y trysorydd i CBP yn cael ei ddiweddaru yng ngoleuni trafodaethau'r Ymddiriedolwyr a dirnadaeth Cyfeillion yn ein cyfarfod 22 Hydref (y cyfarfod hwn).

(6) **Cwestiynau Grŵp Cynaliadwyedd CBP i Gyrddau Lleol**: Rydym wedi derbyn gan Frances Voelcker o Grŵp Cynaliadwyedd CBP rai cwestiynau ar gyfer ein cyrddau lleol yng Nghymru a ddosberthir i gyrddau lleol i helpu i fesur cynnydd y diddordeb ynddo a'r ymgysylltiad â'r mater:

*Yn 2011, ymrwymodd y cyfarfod blynyddol i ddod yn gymuned gynaliadwy carbon isel. Mae tasg henaduriaeth a goruchwylio'r ymrwymiad wedi'i hymddiried i Grŵp Cynaliadwy CBP.*

*Er mwyn asesu i ba raddau mae'r ymrwymiad i gynaliadwyedd wedi'i gyflawni mewn rhannau eraill o'r cyfarfod blynyddol, rydym yn gofyn i gyrddau lleol ddweud wrthym os ydynt wedi ymgymryd â thri cham penodol (sydd eisoes ar waith yn Friends House)…*

(A yw'ch cwrdd lleol wedi *1) ymwrthod â thanwyddau ffosil? (2) ymrwymo i gynnyrch masnach deg? a (3) newid i gyflenwyr ynni gwyrdd?*

**2016.47 Enwebiadau a Phenodiadau**

**Penodiadau a wnaed rhwng Cyfarfodydd**

(i) Cynrychiolydd eciwmenaidd i Synod yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig yng Ngharno, 15 Hydref: Christine Shelley, Machynlleth.

(ii) Yn parhau fel cynrychiolydd Grŵp Ffocws Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru yng Ngrŵp *Laser* Cytûn, hyd at 31 Rhagfyr 2017: David Harries

(iii) Ymddiriedolwr ar gyfer Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru i wasanaethu o 01.01.2017 hyd at 31.12.2019: David Utting

A'r enwau hyn yn dderbyniol i'r Cyfarfod penodir y Cyfeillion dan sylw.

**Enwebiadau a dderbyniwyd**

(gan Stevie Krayer a Jeff Beatty yn ceisio enwau ar gyfer y Pwyllgor Enwebiadau)

Kate Robertson (CAGD) i wasanaethu o 01.01.2017 hyd at 31.12.2019

Archifydd ar gyfer cofnodion Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru i wasanaethu'n syth hyd at 31 Rhagfyr 2018:

Alan Clark (Cwrdd Aberystwyth).

Ymddiriedolwr ar gyfer Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru i wasanaethu o 1.01.2017 hyd at 31.12.2019, David Utting

A'r enwau hyn yn dderbyniol i'r Cyfeillion, fe'u penodir.

**Enwebiadau a geisir**

(1) Cyfaill i wasanaethu ar y Pwyllgor Enwebiadau, o CAGC o ddewis

(2) Cyd-glerc i ddechrau'n syth hyd at 31 Rhagfyr 2018

(3) Clerc cynorthwyol i ddechrau'n syth hyd at 31 Rhagfyr 2017

(4) Cyfaill o Ogledd Cymru i wasanaethu ar Grŵp Ffocws Cymru o 1 Ionawr 2017 hyd at 31 Rhagfyr 2019

(5) Cyfaill o Ororau'r De i wasanaethu ar y Pwyllgor Trefniadau o 1 Ionawr 2017 hyd at 31 Rhagfyr 2019

(6) Ymddiriedolwr ar gyfer Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru i wasanaethu o 1 Ionawr 2017 hyd at 31 Rhagfyr 2019

Christine Trevett